

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWDYD DDYDD MERCHER 25 TACHWEDD 2020 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS (10:30 – 12:15)

Aelodau CFfDLC yn bresennol: Ceri Stradling (Cadeirydd, drwy MS Teams), David Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol, drwy MS Teams)

Cynrychiolydd Archwilio Cymru: Mark Jones (drwy MS Teams)
Kathryn Watts (ar gyfer Eitem 8) (drwy MS Teams)

Cynrychiolydd TIAA: Steen Gourlay (drwy MS Teams)

Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru: Sean Gaffney (drwy MS Teams)

Swyddogion CFfDLC: Shereen Williams (Prif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid), David Burley (Pennaeth Busnes), Hannah Toor (Cymorth Busnes).

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Helen Cargill (TIAA).

2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2020

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2020 yn amodol ar fân wall teipio.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar faterion yn codi o'r cyfarfod blaenorol.

4.2 Gofynnodd Julie James am gopi o'r adroddiad ar ganlyniad yr arolwg lles staff. **Cytunwyd** y byddai'r Prif Weithredwr yn anfon copi o'r adroddiad at CFfDLC yn ymwneud â chanlyniadau'r arolwg.

Gweithredu: Prif Weithredwr **Erbyn:** 30 Tachwedd 2020

5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

5.1 Nododd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020-21 a **chytuno** arno.

6. Adroddiad Diogelwch Data TGCh

- 6.1 Crybwyllwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data ar gyfer 2020-21 hyd yn hyn.
- 6.2 Crybwyllodd Sean Gaffney fod arolwg diweddar o gwmnïau yn y DU wedi dod i'r casgliad bod systemau TG cwmwl wedi'u harbed rhag methu yn ystod y pandemig. Roedd y canlyniad hwn yn amlygu'r manteision i CFfDLC o symud i system TG cwmwl ymhell cyn y pandemig. Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol mewn seiberdroseddu hefyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys sgamiau gwe-rwydo COVID-19. Roedd seiberddiogelwch cyfredol CFfDLC yn cael sgôr risg ganolig, ond disgwylir i'r sgôr fynd ar duedd ar i lawr dros yr ychydig fisoedd nesaf wrth i ddiweddariadau diogelwch awtomatig Microsoft ddal i fyny. Pe na fyddai sgôr diogelwch CFfDLC yn dechrau gostwng, byddai Cymwysterau Cymru yn archwilio pam hynny.
- 6.3 Rhoddwyd cyrsiau hyfforddiant diweddar ar Ddiogelwch TGCh i'r holl staff eu cwblhau. Byddai'r adroddiad TGCh i gyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cynnwys sawl aelod staff a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant.
- 6.4 Crybwyllwyd bod Cymwysterau Cymru wedi cynnal archwiliad manwl o risgiau diogelwch ei system TGCh. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid cynnal ymarfer tebyg ar gyfer CFfDLC. Cytunwyd y byddai ymarfer archwilio risgiau diogelwch TGCh yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2021 ac yr adroddir arno yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio at Atal Risg.
Gweithredu: Pennaeth Busnes / Cymwysterau Cymru **Erbyn:** 31 Mawrth 2021
- 6.5 Diolchodd y Pwyllgor i Sean Gaffney am drefnu'r hyfforddiant Diogelwch TGCh i aelodau y diwrnod cynt. O ganlyniad i'r hyfforddiant Diogelwch TGCh, ystyriwyd y dylid enwebu aelod o'r Pwyllgor fel Hyrwyddwr TGCh ar gyfer CFfDLC. **Cytunwyd** mai Theo Joloza fyddai Hyrwyddwr TGCh CFfDLC.
- 6.6 Crybwyllwyd y byddai gwaith yn dechrau ym mis Ebrill 2021 i adnewyddu achrediad Cyber Essentials CFfDLC ym mis Mai 2021.

7. Archwilio Mewnol: Adroddiad Archwilio Canol Blwyddyn 2020-21

- 7.1 Crybwyllodd Steen Gourlay fod y gwaith archwilio a gynhaliwyd ym mis Medi 2020 wedi cwmpasu meysydd Rheolaethau Ariannol Allweddol ac Adnoddau Dynol. Manylwyd ar ganfyddiadau'r gwaith archwilio yn yr adroddiadau, a oedd yn rhoi sgorau sicrwydd Rhesymol i Reolaethau Ariannol Allweddol ac Adnoddau Dynol. Cododd yr adroddiadau 2 argymhelliad â blaenoriaeth Bwysig a 7 argymhelliad â blaenoriaeth Rheolaidd, sef:
- Dylid cysoni a gwirio adroddiadau ar y gyflogres yn fisol.
 - Dylid diweddarau polisïau a gweithdrefnau i gynnwys manylion am ddyddiadau adolygiadau cyfredol ac yn y dyfodol er mwyn gallu eu holrhain yn well.
 - Dylid gwirio arian mân yn fisol yn unol â'r broses.
 - Dylid gwirio a llofnodi ffurflenni hawlio treulio.
 - Dylai ffeiliau personél gynnwys rhestr wirio o'r wybodaeth ofynnol.
 - Dylid diweddarau'r Canllaw Rheoli Perfformiad yn unol ag arferion cyfredol.

- Dylid adolygu'r ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Hyfforddiant a Datblygiad, a'i diweddarau i roi disgrifiad mwy cynhwysfawr o drefniadau hyfforddiant a datblygiad y Comisiwn.
- Dylai'r holl hyfforddiant gorfodol gael ei gofnodi'n awtomatig ar daenlen cofnodi hyfforddiant er mwyn gallu gweld a yw hyfforddiant gorfodol wedi'i gwblhau, fel lechyd a Diogelwch a Chyfarpar Sgrin Arddangos.
- Dylid ychwanegu colofn at y Cofnod Hyfforddiant i ddangos y dyddiad mae'r hyfforddiant yn dod i ben.

7.2 Derbyniwyd yr argymhellion a phennwyd dyddiad cau ar gyfer eu rhoi ar waith. Nodwyd bod yr adroddiadau'n cynnwys Cynllun Gweithredu Materion Effeithiolrwydd Gweithredol i'w ystyried gan CFfDLC hefyd. Nid camau gweithredu oedd yr argymhellion archwilio hyn, ond awgrymiadau o ran sut gallai CFfDLC wella ei drefniadau llywodraethu presennol. Cadarnhaodd Steen Gourlay hefyd nad oedd y Materion Effeithiolrwydd Gweithredol yn cyfrannu at y sgorau sicrwydd archwilio cyffredinol.

7.3 Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol, a roddodd ddiweddariad ar faterion a oedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â llywodraethu, risg a rheolaeth fewnol. Ystyriodd y Pwyllgor y Nodiadau Briffio'r Cleient yn Atodiad E i'r adroddiad, a nododd fod sawl datblygiad TGCh wedi'u rhestru. Dywedodd Sean Gaffney nad oedd yn credu y dylai unrhyw rai o'r pwyntiau TGCh a godwyd beri pryder i CFfDLC. Ystyriwyd y byddai'r Rheolwr Cyllid yn adolygu'r Nodiadau Briffio'r Cleient hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol ac yn nodi unrhyw rai sy'n mynnu sylw'r Pwyllgor.

7.4 Rhoddodd Julie James wybod i'r Pwyllgor y cyflwynwyd deddfwriaeth newydd i gyflogwyr a allai effeithio ar gontractau cyflogaeth. Crybwyllwyd bod CFfDLC wedi cael cyngor cyfreithiol yn ddiweddar ar y contract ar gyfer y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd, ac y gallai ymestyn hyn i gontractau ar gyfer yr holl staff yn y dyfodol.

7.5 Diolchodd y Cadeirydd i Steen Gourlay am ei adroddiad.

8. Adendwm i'r Adroddiad ar yr Archwiliad Allanol o'r Cyfrifon

8.1 Crybwyllodd Mark Jones fod yr Adendwm i'r Archwiliad o'r Cyfrifon yn amlinellu'r argymhellion yn deillio o ganfyddiadau'r archwiliad allanol o gyfrifon blynyddol 2019-20. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Dylai'r Comisiwn:
 - sicrhau bod gan bob cyflogai gontract cyflogaeth wedi'i gydlofnodi cyn iddynt ddechrau gweithio;
 - sicrhau y caiff contractau cyflogaeth llofnodedig eu rhoi ar waith yn ôl-weithredol, yn ôl yr angen;
 - llunio a chynnal cofnod adnoddau dynol canolog ar gyfer unrhyw newid i amgylchiadau cyflogaeth, gan gynnwys unrhyw newid i'w tâl;
 - cynnal, diweddarau a chwblhau ffolder adnoddau dynol ar gyfer pob cyflogai, ynghyd â chofnod adnoddau dynol cyfwerth ar gyfer yr holl staff eraill, fel secondeion.
- Dylai'r Comisiwn roi'r gorau i ddiwygio a dileu dyddlyfrau cyfrifyddu sydd wedi'u paratoi, eu cymeradwyo a'u prosesu, ar unwaith.

- Dylai'r Comisiwn sicrhau y caiff yr holl drafodion cerdyn credyd eu hategu gan dystiolaeth archwilio ddigonol, briodol sy'n cynnwys cadarnhau pa bryd y cafodd nwyddau a/neu wasanaethau eu derbyn.
 - Dylai'r Comisiwn gadw cofnod o gymeradwyo ei gyllideb flynyddol bob tro, ynghyd ag unrhyw newidiadau dilynol yn ystod y flwyddyn sy'n cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan Gomisiynwyr.
- 8.2 Derbyniwyd yr holl argymhellion a phennwyd dyddiadau gweithredu ar eu cyfer, a byddant yn cael eu dilyn i fyny'n rhan o'r archwiliad o'r cyfrifon y flwyddyn nesaf.
- 8.3 O ran ffioedd archwilio ychwanegol, dywedodd Mark Jones fod y ffi archwilio wreiddiol wedi'i phennu'n weddol isel a'i bod wedi'i seilio ar wneud mân newidiadau i'r cyfrifon. Fodd bynnag, yn ystod yr archwiliad, bu'n rhaid gwneud 8 o newidiadau i'r cyfrifon. Tynnodd sylw at y ffaith mai cost wirioneddol y gwaith archwilio ychwanegol oedd £4,000, ond bod £2,000 o'r gost honno wedi'i phriodoli i'r ffaith nad oedd yr archwilwyr newydd yn gyfarwydd â CFfDLC a chyfyngiadau COVID-19 yn effeithio ar sut y cynhaliwyd y gwaith archwilio, felly ni throsglwyddwyd y gost honno i CFfDLC.
- 8.4 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Rheolwr Cyllid yn fodlon â'r tâl archwilio ychwanegol, o ystyried ei wybodaeth am y gwaith ychwanegol a gwblhawyd gan yr archwilwyr, a chadarnhaodd y Rheolwr Cyllid ei fod yn fodlon.
- 8.5 Diolchodd y Pwyllgor i Mark Jones am ei adroddiad.

9. Adolygiad o'r Ymarfer Dilysu Asedau sefydlog

- 9.1 Nododd y Pwyllgor ganlyniad ymarfer blynyddol CFfDLC i ddilysu asedau sefydlog. Cyfrifwyd am yr holl asedau ac roedd yr unig fater a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud â rhai asedau a waredwyd ond nad oeddent wedi'u dileu o'r rhestr asedau.

10. Adolygiad o Holiadur Hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

- 10.1 Crybwyllwyd bod yr holiadur ar gyfer 2021-21 wedi'i ddisbarthu'n ddiweddar i aelodau ei lenwi. **Cytunwyd** y byddai'r holiadur yn cael ei lenwi a'i ddychwelyd gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg erbyn 31 Rhagfyr 2020 ac y byddai'r Rheolwr Cyllid yn anfon neges e-bost i atgoffa aelodau am hyn.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 30 Tachwedd 2020
- 10.2 Mewn perthynas â Chwestiwn 19 yn ymwneud â phenodi Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, nodwyd y bu asesiad anffurfiol ar sail profiad blaenorol, ac y dylid codi unrhyw faterion yn ymwneud â hyn fel sylw ychwanegol.
- 10.3 Cytunwyd y byddai'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiaduron yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ym mis Chwefror.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 12 Chwefror 2020

11. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

- 11.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar yr argymhellion a oedd yn weddill o'r archwiliadau mewnol ac allanol, a oedd yn cynnwys y rhai a grybwyllwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Roedd y Materion Effeithiolrwydd Gweithredol o'r adroddiadau archwilio mewnol canol blwyddyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hefyd. **Cytunwyd** y dylid adrodd ar y Materion Effeithiolrwydd Gweithredol yng nghyfarfod nesaf CFfDLC dan faterion sy'n codi
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 15 Rhagfyr 2020
- 11.2 Roedd yr argymhelliad o archwiliad allanol 2019-20, sef y dylai CFfDLC gryfhau ei reolaethau taliadau banc ar-lein, yn mynd rhagddo ac roedd trefniant yn cael ei wneud i ddisodli'r Dirprwy Brif Weithredwr â'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni ar y gorchymyn banc.
- 11.3 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad allanol 2019-20, sef y dylai CFfDLC sicrhau bod gan yr holl staff gontractau cyflogaeth wedi'u llofnodi a chadw cofnod adnoddau dynol canolog o newidiadau i amgylchiadau cyflogeion, a phennwyd dyddiad gweithredu o 30 Medi 2020.
- 11.4 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad allanol 2019-20, sef y dylai CFfDLC roi'r gorau i ddiwygio a dileu dyddlyfrau cyfrifyddu sydd wedi'u paratoi, eu cymeradwyo a'u prosesu, ar unwaith i'w roi ar waith ar unwaith. Fodd bynnag, dywedodd y Rheolwr Cyllid nad oedd yn credu bod y broses hon yn un syml â meddalwedd cyfrifyddu Sage. Ystyriwyd y dylid trafod y mater hwn ag archwilwyr allanol yn ystod yr archwiliad interim ym mis Ionawr.
- 11.5 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad allanol 2019-20 yn rhannol, sef y dylai CFfDLC sicrhau y caiff yr holl drafodion cerdyn credyd eu hategu gan dystiolaeth archwilio ddigonol, briodol a nodiadau trosglwyddo, i'w roi ar waith ar unwaith. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn yn rhannol gan fod rheolwyr o'r farn, dan amgylchiadau arferol, y byddai'r holl nodiadau trosglwyddo'n cael eu derbyn a'u cadw, a bod yr ychydig achosion diweddar pan na ddigwyddodd hyn oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan gyfnod clo cyntaf y pandemig.
- 11.6 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad allanol 2019-20, sef y dylai CFfDLC gadw cofnod o gymeradwyo ei gyllideb flynyddol bob tro, ynghyd ag unrhyw newidiadau dilynol yn ystod y flwyddyn sy'n cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan Gomisiynwyr, i'w weithredu ar unwaith. Nododd y Pwyllgor, er bod CFfDLC yn adrodd ac yn cytuno ar gyllidebau newydd bob tro, nad oedd hyn yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn y cofnodion bob tro. Felly'r polisi yn y dyfodol fyddai ymdrin â chyllidebau newydd fel eitem ar wahân i adroddiadau ar y gyllideb ar agendâu cyfarfodydd CFfDLC.
- 11.7 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2019-20, sef y dylai CFfDLC gysoni a gwirio adroddiadau ar y gyflogres yn fisol, i'w roi ar waith ar 30 Medi 2020.
- 11.8 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2019-20, sef y dylid diweddarau polisiau a gweithdrefnau CFfDLC i gynnwys manylion am ddyddiadau arolygon cyfredol ac yn y dyfodol er mwyn gallu eu holrhain yn well, i'w roi ar waith ar 30 Medi 2020.

- 11.9 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2019-20, sef y dylid gwirio arian mân yn fisol yn unol â'r broses, i'w roi ar waith ar 30 Medi 2020.
- 11.10 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2019-20, sef y dylid gwirio a llofnodi ffurflenni hawlio treuliau CFfDLC, i'w roi ar waith ar 30 Medi 2020.
- 11.11 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2019-20, sef y dylai ffeiliau personél CFfDLC gynnwys rhestr wirio o'r wybodaeth ofynnol, i'w roi ar waith ar 19 Hydref 2020.
- 11.12 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2019-20, sef y dylai CFfDLC ddiweddarau'r Canllaw Rheoli Perfformiad yn unol ag arfer cyfredol, i'w roi ar waith ar 31 Mawrth 2021.
- 11.13 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2019-20, sef y dylid adolygu a diweddarau dogfen Polisi a Gweithdrefnau Hyfforddiant a Datblygiad CFfDLC i roi disgrifiad mwy cynhwysfawr o drefniadau hyfforddiant a datblygiad y Comisiwn, i'w roi ar waith ar 31 Mawrth 2021.
- 11.14 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2019-20, sef y dylai CFfDLC gofnodi'r holl hyfforddiant gorfodol ar daenlen cofnodi hyfforddiant er mwyn gallu gweld a yw hyfforddiant gorfodol wedi'i gwblhau, fel lechyd a Diogelwch a Chyfarpar Sgrin Arddangos, i'w roi ar waith ar 30 Tachwedd 2020.
- 11.15 Derbyniwyd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2019-20, sef y dylai CFfDLC ychwanegu colofn at y Cofnod Hyfforddiant i ddangos y dyddiad y daw'r hyfforddiant i ben, i'w roi ar waith ar 30 Tachwedd 2020.

12. Adroddiad Rheoli Risg

- 12.1 Ystyriwyd y cofrestrau a'r polisi risg cyfredol. Rhoddwyd manylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrau risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.
- 12.2 **Cytunwyd** y dylid ychwanegu cam lliniaru ychwanegol at risg gorfforaethol CR1 yn ymwneud ag ymdrin â'r gŵyn am Arolwg Sir y Fflint.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 15 Rhagfyr 2020
- 12.3 **Cytunwyd** y dylid ychwanegu camau lliniaru ychwanegol at risg weithredol OP4 yn ymwneud ag archwiliad manwl Cymwysterau Cymru o ddiogelwch TGCh ac enwebu aelod fel Hyrwyddwr TGCh.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Rhagfyr 2020

13. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

- 13.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 13 Hydref 2020. Crybwyllwyd bod y Comisiwn wedi amcangyfrif sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn a'i fod wedi adrodd arni yng nghyfarfod CFfDLC a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2020.

14. Cwynion

- 14.1 Crybwyllwyd bod CFfDLC wedi derbyn cwyn yn ymwneud â'i argymhellion terfynol ar gyfer arolwg etholiadol Sir y Fflint. Roedd y gŵyn yn ymwneud â chais i dynnu cynrychiolaeth yn ôl gan aelod o Gymdeithas y Ceidwadwyr a oedd wedi'i chyflwyno. Heriwyd y cais hwn yn ddiweddarach gan aelodau eraill o'r gymdeithas. Roedd y Prif Weithredwr wedi rhoi'r newyddion diweddaraf i Lywodraeth Cymru am y sefyllfa ac wedi cynghori'r gymdeithas i roi manylion am ei chynrychiolaeth i Lywodraeth Cymru. Ar ôl hynny, ni chafwyd unrhyw ohebiaeth bellach gan y gymdeithas.
- 14.2 Nododd y Pwyllgor fanylion y gŵyn a'r camau a gymerwyd gan CFfDLC.

15. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

- 15.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion a lletygarwch ar gyfer 2020-21 hyd yn hyn.

16. Adroddiad Chwythu'r Chwiban a Thwyll

- 16.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ar gyfer 2020-21 hyd yn hyn.

17. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

- 17.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan y Prif Weithredwr yn rhoi manylion am geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd gan CFfDLC ar gyfer 2019-20 a mis Ebrill i fis Hydref 2020.
- 17.2 Crybwyllwyd y gwrthodwyd cais am wybodaeth yn ymwneud ag arolwg Sir Fynwy gan CFfDLC oherwydd y gost uchel o ddarparu'r wybodaeth. Cwynodd y sawl a ofynnodd am y wybodaeth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Roedd CFfDLC yn aros i ICO gysylltu ynglŷn â'r gŵyn.

18. Unrhyw fater arall

- 18.1 Crybwyllodd Mark Jones y byddai newid i uwch bersonél Archwilio Cymru ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon blynyddol 2020-21, ac nad ef fyddai Rheolwr Archwilio CFfDLC mwyach.
- 18.2 Diolchodd y Cadeirydd i Mark Jones am ei gyngor a chymorth mewn archwiliadau blaenorol.

19. Dyddiad y cyfarfod nesaf

- 19.1 Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 24 Chwefror 2021.